Bwrdd Busnes Asiantaeth Tŷ'r Cwmnïau - Cofnodion Cryno – 20 Ebrill 2009

Cerdyn Sgorio Busnes Tŷ'r Cwmnïau (gan gynnwys y Grŵp Perchnogaeth Busnes) - Mawrth 2009
Monitrodd y Bwrdd y cerdyn sgorio busnes, gan olrhain y perfformiad yn erbyn y targedau a chan nodi'r canlyniadau terfynol a sicrhawyd yn erbyn deilliannau 2008/09.

Pwyntiau Bonws Tŷ'r Cwmnïau 2008/09
Trafododd y Bwrdd y cynnig gan gytuno ar nifer terfynol y pwyntiau ar gyfer y flwyddyn 2008/09.

Llwyth Gwaith - Mawrth 2009
Roedd yn dda gan y Bwrdd nodi bod y cynnydd o fis i fis yn amser cyfartalog prosesu dogfennau wedi'i atal.

Cerdyn Sgorio e-Ffeilio
Nododd y Bwrdd y cerdyn sgorio fel y'i cyflwynwyd, yn benodol y cynnydd yn nifer y Ffurflenni Blynyddol a oedd yn dod i mewn yn electronig bellach.

Targedau Cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau 2008/09
Nododd y Bwrdd y canlyniadau terfynol yn erbyn y targedau cyhoeddus.

Risgiau Critigol y Bwrdd Busnes Asiantaeth
Adolygodd y Bwrdd y risgiau fel y'u cyflwynwyd, gan gynnwys dwy risg ychwanegol newydd - Diogelwch Data a Chydymffurfio â'r Gyfraith ar Iechyd a Diogelwch.

Adroddiad Buddion Chwarterol
Roedd yn dda gan y Bwrdd weld effaith y ffaith ein bod ar gael 17/7 ar gyfer gwasanaethau ar-lein, a oedd yn cael effaith bendant ar nifer y cwynion a oedd yn arfer dod i law.

Adroddiad Iechyd a Diogelwch
Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Roedd Tŷ'r Cwmnïau yn falch ei fod wedi cadw'r wobr "Arian" yn y Safon Iechyd Corfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle.

Ailddatblygu'r Fewnrwyd
Cytunodd y Bwrdd wneud gwaith ar y fframwaith technegol yn ystod yr haf a lansio'r Fewnrwyd newydd i'r staff erbyn mis Mawrth 2010.

Cerdyn Sgorio Busnes Newydd 2009/10
Adolygodd y Bwrdd y cerdyn sgorio busnes newydd drafft ar gyfer 2009/10 a byddai'n cytuno'n derfynol ar y fersiwn newydd ar 5 Mai 2009.

Cynllunio ar gyfer Olyniaeth
Cafodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf am y cynnydd wrth sefydlu polisi cynllunio olyniaeth yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Adolygiad Blaenoriaethau Busnes
Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y gwaith dadansoddi a oedd wedi'i wneud hyd yn hyn.

Treial Prosesu Cellog
Nododd y Bwrdd y cynnydd a oedd wedi'i wneud hyd yn hyn. Roedd yn ymddangos bod y treial yn gweithio'n dda a byddai'n cael ei ymestyn ymhellach i weld a fyddai'r cysyniad yn gweithio ar raddfa ehangach.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Ebrill 2009